

**Dyddiad cyhoeddi: ## Hydref 2020**

### **Cais Rhyddid Gwybodaeth**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch Cais Rhyddid Gwybodaeth. Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

#### **Gofynnoch am y wybodaeth ganlynol:**

- Allech chi ddweud faint o geisiadau, ailgeisiadau, ceisiadau adnewyddu ac apeliadau a wnaed rhwng 1 Awst 2019 a 1 Hydref 2020 ar gyfer pas bws anabledd/pas bws cydymaith anabledd lle 'nad yw'r meini prawf wedi'u bodloni'.
- Yn benodol, y rhai sydd wedi gwneud cais o dan adran 6A nam gwybyddol, person a fyddai'n cael ei wrthod am drwydded i yrru cerbyd modur dan Ran III o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, yn unol ag adran 92 y Ddeddf (ffitrwydd corfforol) ac eithrio ar sail camddefnydd cyson o gyffuriau neu alcohol. Byddai'r rhain yn cynnwys unigolion sydd angen cymryd meddyginiaethau rheolaidd i reoli cyflyrau iechyd meddwl hirdymor/parhaol fel anhwylder deubegwn, sgitsoffrenia sy'n enghreifftiau lle mae'r meddyginiaethau yn golygu na all yr unigolion yrru.
- Yn dilyn y cais am dystiolaeth ar gyfer cyflwr unigolion, sut yr asesir y meini prawf er mwyn i TrC allu penderfynu cefnogi neu wrthod cais.

#### **Ar ôl adolygu'ch cwestiynau, gallwn ddarparu'r wybodaeth ganlynol:**

Mae'r 22 cyngor yng Nghymru yn rheoli cynlluniau teithio rhatach o dan Ddeddf Trafnidiaeth (2000). Cytunodd cyngorau ar feini prawf cyffredin i asesu cymhwysra ar gyfer cerdyn teithio person anabl a ddisgrifir yn <https://trc.cymru/gwybodaeth/pobl-dros-60/cerdynteithio-cymhwyster>

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio y gellir gwneud cais ar y sail bod cais am drwydded i yrru cerbyd modur dan Ran III y Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, yn unol ag adran 92 y Ddeddf (ffitrwydd corfforol) wedi'i wrthod, ac eithrio ar sail camddefnydd cyson o gyffuriau neu alcohol.

Lle mae cais yn cael ei wneud ar y seiliau hyn, bydd cyngor yr ymgeisydd yn asesu cymhwysra, ac efallai'n gofyn am dystiolaeth ddogfennol fel llythyr swyddogol neu gyfarfod gyda'r ymgeisydd. Nid yw TrC yn asesu cymhwysra yn yr achosion hyn.

Mae gan TrC wybodaeth am y ceisiadau a wneir ar wefan [trc.cymru/cerdynteithio](https://trc.cymru/cerdynteithio) o ganol mis Medi 2019:

- Nid oedd TrC wedi gwrthod unrhyw geisiadau adnewyddu lle'r oedd y person anabl yn arfer meddu ar bas bws gwyrdd ac wedi gofyn am gerdyn ar ei newydd wedd.
- Ar hyn o bryd, mae 10,601 o ymgeiswyr actif sydd wedi gwneud cais am gerdyn teithio person anabl newydd ar y porth ar-lein, o'r rhain mae 456 wedi'u gwrthod ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd (ar unrhyw sail - nid yn unig oherwydd y gwrthodwyd trwydded yrru i'r ymgeisydd).

Serch hynny, nid dyma'r darlun llawn. Mae ceisiadau newydd yn aml yn cael eu gwneud yn bersonol mewn swyddfeydd cyngor ac yn cael eu hasesu o bosibl cyn eu cofnodi ar unrhyw systemau, a'r cyngorau sy'n trafod prosesau apelio. Felly, dylech gysylltu â'ch cyngor i bennu ystadegau cyflawn.



**TRAFNIDIAETH CYMRU**  
**TRANSPORT FOR WALES**

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o fudd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru